**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU : NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

**GRŴP TRAWSBLEIDIOL AR GWRW A THAFARNDAI**

**CROSS PARTY GROUP ON BEER AND THE PUB**

**Yn dilyn ymddiswyddiad y Cadeirydd blaenorol fel Aelod Cynulliad, roedd y cyfarfod hwn yn Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Arbennig.**

Dydd Mawrth 5 Mawrth, Ystafell Giniawa 2, Tŷ Hywel

**Yn bresennol:** Gareth Bennett AC; Chris Charters (Cyfarwyddwr Cymru, CAMRA); Andrew RT Davies AC; Paul Edgeworth (Rheolwr Ymgyrchoedd – Cymru; CAMRA); Vikki Howells AC; Mark Isherwood AC; John Pockett; Jack Sargeant AC; Nick Ramsay AC: Bethan Sayed AC

**Ymddiheuriadau:** Neil Hamilton AC; Helen Mary Jones AC

1. Croeso ac ymddiheuriadau

   Croesawodd Mark Isherwood bawb a chadeiriodd ran gyntaf y cyfarfod.

2. Cafodd cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwethaf (22 Mai 2018) eu cymeradwyo.

3. Ethol swyddogion y grŵp

   Enwebwyd Jack Sargeant i gadeirio'r Grŵp. Cynigiwyd gan: Nick Ramsay; eiliwyd gan: Rhianon Passmore. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill.

   Enwebwyd John Pockett i ddarparu'r ysgrifenyddiaeth. Cynigiwyd gan: Alun Davies; eiliwyd gan: Bethan Sayed. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill.

4. Cafwyd trafodaeth fer am y pynciau yr hoffai'r grŵp trawsbleidiol ganolbwyntio arnynt. Roedd y rhain yn cynnwys:
   - Mesurau diogelu yn y drefn gynllunio ar gyfer tafarndai (gan gynnwys statws 'Ased o Werth Cymunedol')
   - Ardrethi busnes
   - Perchnogaeth gymunedol a rôl tafarndai o ran darparu gwasanaethau cymunedol
   - Unigrwydd, unigedd cymdeithasol a rôl tafarndai mewn perthynas ag iechyd meddwl
   - Heriau a chyfleoedd yn y diwydiant, gan gynnwys bwyd ac arallgyfeirio yn y sector tafarndai
   - Yn dilyn awgrym gan Chris Charters, cytunwyd y byddai cynhyrchwyr seidr a seidr o Gymru yn cael eu cynnwys yng ngwaith y Grŵp, yn ogystal â chwrw, bragu a thafarndai.

5. Gwaith, cyfarfodydd a digwyddiadau'r grŵp trawsbleidiol yn y dyfodol

   Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn llunio amserlen arfaethedig o gyfarfodydd a digwyddiadau ar gyfer gweddill y flwyddyn ac yn adrodd yn ôl i'r Grŵp. Bydd dyddiad y cyfarfod nesaf yn cael ei gadarnhau yn dilyn cyfarfod rhwng y cadeirydd a'r ysgrifennydd. Bydd yr ysgrifennydd yn anfon gwybodaeth at yr aelodau am y cyfarfod nesaf pan fydd y trefniadau wedi'u gwneud.

6. Unrhyw fater arall

   Ni chodwyd unrhyw fater arall.

7 Daeth y cyfarfod i ben am 18.45